# Y Gymraeg – mwy o alw, a mwy o gyfle nag erioed

FU yna erioed gyfnod mor gyffrous i astudio'r Gymraeg ym Mangor. Fu yna erioed chwaith fwy o alw yn y gweithle am fyfyrwyr a chanddynt radd dda yn y Gymraeg. Ym myd llywodraeth a gweinyddiaeth, addysg a'r cyfryngau y mae'r galw am weithwyr medrus eu Cymraeg yn ddi-ben-draw.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn y mae arholwyr allanol wedi rhoi clod eithriadol i safon y darlithio ym Mangor ac i ehangder y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig. Yn ychwanegol at draddodiad hir ac anrhydeddus o astudio'r Gymraeg yn academaidd, mae Bangor hefyd ar flaen y gad o ran datblygiadau sy'n mynd â'r iaith i feysydd cyffrous a newydd.

"Ym Mangor mae astudio Cymraeg yn gyfuniad rhagorol o astudio'r hen a'r newydd," meddai'r Pennaeth, Yr Athro Peredur Lynch.

"Rydym wedi llwyddo i greu darpariaeth sy'n hollol berthnasol i'r Gymru fodern sy'n datblygu o'n cwmpas. Ond rydym hefyd, ar yr un pryd, yn gafael yn dynn yng ngwerthoedd addysgol y gorffennol."

Ac nid llwyddiant mewn arholiadau yn unig sy'n profi bod myfyrwyr Bangor yn elwa ar y ddarpariaeth gyfoethog hon. Y mae'r swyddi amrywiol y maent yn eu llenwi ar ôl graddio yn tystio i bwysigrwydd cynyddol y Gymraeg yn y gweithle a gwerth eithriadol gradd yn y Gymraeg.

Meddai'r Athro Lynch ymhellach: "Ryw ben bob dydd mi fydda' i'n clywed lleisiau cyn-fyfyrwyr Bangor ar Radio Cymru ac yn eu gweld nhw ar S4C. Wrth ymweld â sefydliadau fel Cyngor Sir Gwynedd a'r Cynulliad Cenedlaethol, mi fydda' i'n dod ar eu traws nhw mewn swyddi gweinyddol allweddol. Lle bynnag y bydd rhywun yn troi, byd cyfieithu, byd newyddiaduraeth, byd addysg, ac wrth gwrs, byd ysgrifennu a chyhoeddi, y mae cyn-fyfyrwyr Bangor yno'n amlwg."



**Yn ychwanegol at draddodiad hir ac anrhydeddus o astudio'r Gymraeg yn academaidd, mae Bangor hefyd ar flaen y gad o ran datblygiadau sy'n mynd â'r iaith i feysydd cyffrous a newydd**

## O Fangor i'r ffau ym Mae Caerdydd

UN a raddiodd yn y Gymraeg ym Mangor sydd bellach â'r cyfrifoldeb yn Llywodraeth y Cynulliad dros yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yma mae Alun Ffred Jones, y Gweinidog Iaith a Threftadaeth, yn esbonio pa mor allweddol yw cyfraniad rhai â gradd yn y Gymraeg yn y Gymru sydd ohoni.

"Un o fendithion mawr fy mywyd hyd yma ydi'r ffaith fy mod i wedi cael gyrfa mor eithriadol o amrywiol.

"Mi dreuliais i gyfnod hapus iawn yn athro Cymraeg mewn ysgol uwchradd. Yna dyma'i mentro hi i fyd teledu i fod yn gyflwynydd newyddion, cyn troi at sgwennu ar gyfer y radio a'r teledu a chynhyrchu rhaglenni fel C'mon Midffild ar gyfer S4C. Ac erbyn hyn rydw i'n cael boddhad mawr ynghanol bwrlwm y byd gwleidyddol."


Ond tybed beth roddodd gychwyn ar yrfa mor amrywiol?

"Wel, yn syml ddigon, graddio yn y Gymraeg ym Mangor. 'Rydw i'n amheus iawn a fyddai hyn oll wedi digwydd oni bai am y cam pwysig cyntaf hwnnw.

"Bellach, fel Gweinidog Iaith a Threftadaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydw i'n ymwybodol mai un o'r pethau cyffrous sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd ydi'r ymdrech i greu gweithlu sy'n drwyadl ddwyieithog. Ac mewn gweithlu o'r fath y mae rhan gwbl allweddol i rai sydd â gradd yn y Gymraeg.

"Yn wir, fu yna erioed gymaint o gyfleon i rai all weithio'n hyderus drwy gyfrwng yr iaith.

"I'r rheini sydd ar fin mentro i fyd addysg uwch, mae 'na neges syml. Y rhai sy'n graddio yn y Gymraeg heddiw fydd gweision sifil, cyfieithwyr, athrawon, sgriptwyr, llenorion, newyddiadurwyr, cynhyrchwyr teledu, gweinyddwyr, darlledwyr, swyddogion cysylltiadau cyhoeddus, gwleidyddion – ac, ie, arweinwyr y dyfodol."



**Mae Gweinidog Iaith a Threftadaeth Llywodraeth y Cynulliad, Alun Ffred Jones AC wedi cael gyrfa amrywiol iawn, ac i'r cwrs Cymraeg ym Mangor y mae'r diolch, meddai ef**

## Myfyrwyr yn fwy na bodlon eu byd

YN ôl canlyniad trawiadol Arolwg 'Cenedlaethol' y Myfyrwyr 2009, y mae'r rhai sy'n astudio Cymraeg ym Mangor yn fwy na bodlon gyda'r cwrs.

Y mae Ysgol y Gymraeg ym Mangor yn un o lond dwrn yn unig o adrannau academaidd drwy Brydain a gafodd lefel bodlonrwydd o 100%.

Bydd yr arolwg hwn yn cael ei gynnal yn flynyddol ar draws Prydain er mwyn cael barn myfyrwyr y flwyddyn olaf am y cyrsiau gradd y buont yn eu dilyn.


Mae'r myfyrwyr yn cael eu holi am faterion fel safon a dull y dysgu, natur yr asesu a'r adborth, a'r gefnogaeth academaidd a phersonol y maent yn ei derbyn gan aelodau'r staff.

"Rydym yn hynod o falch fod ein myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sylweddol yr ydym yn ei hestyn iddynt," meddai Peredur Lynch, Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mangor.

"O ran maint, yr ydym yn adran lle mae modd i fyfyrwyr gael sylw unigol digonol gan ddarlithwyr.

"Mae hynny'n beth rhagorol yn academaidd, ac mae'n golygu hefyd fod modd i ni ddod i wir adnabod y rhai sy'n astudio yma."

Ac mae barn rhai o'r myfyrwyr sydd ar ganol eu cyrsiau Cymraeg ym Mangor yn ategu dyfarniad cadarnhaol y rhai a raddiodd yr haf hwn.



**Myfyrwyr bodlon: Branwen Dafydd o Benybont-ar-Ogwr a Fflur Rees Williams o Drawsfynydd**

Yn ôl Branwen Dafydd o Benybont-ar-Ogwr: "Mae i'r cwrs Cymraeg ym Mangor ddau gryfder mawr – y modiwlau cyfoes a heriol a'r gefnogaeth academaidd ardderchog."

Mae Fflur Rees Williams o Drawsfynydd hefyd yn rhannu'i brwdfrydedd.

"Mae 'na fyd newydd wedi'i agor o 'mlaen i ym Mangor, a hynny gan ddarlithwyr brwdfrydig sy'n barod i wrando o hyd."

**MANYLION CYSWLLT YSGOL Y GYMRAEG, BANGOR**

www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

e-bost: cymraeg@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 382240

Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

ERTHYGL HYSBYSEBU

YSGOL Y GYMRAEG, PRIFYSGOL BANGOR

# Cryfhau'r cysylltiad gyda Chae'r Gors

MAE Ysgol y Gymraeg ym Mangor yn eithriadol o falch o'r cysylltiad sy'n tyfu rhyngddi a Chanolfan Cae'r Gors – y ganolfan dreftadaeth sy'n dathlu bywyd a gwaith y llenor Kate Roberts, un o fyfyrwyr enwocaf Bangor.

Roedd Kate Roberts yn bencampwraig ym maes y stori fer, ac yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala eleni lansiwyd cystadleuaeth stori fer ar y cyd rhwng Canolfan Cae'r Gors ag Ysgol y Gymraeg.

Yn ychwanegol at hynny, bydd Canolfan Cae'r Gors yn un o'r partneriaid mewn datblygiad newydd yn y cwrs BA Cymraeg ym Mangor. O 2010 ymlaen bydd myfyrwyr yn treulio cyfnodau byr mewn gweithleoedd Cymraeg er mwyn iddynt gael profiad o ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau ymarferol.

"Mi fyddai Kate Roberts wrth ei bodd efo'r cysylltiad cryf sy'n datblygu rhwng Cae'r Gors a'i hen adran ym Mangor," meddai Bethan Jones Parry, Rheolwraig y Ganolfan.




Brenhines Ein Llên – Kate Roberts

"Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at groesawu myfyrwyr i'n plith ac yn hyderus y bydd cyfnodau efo ni yn cyfoethogi eu profiadau"

"Rydan ni'n falch iawn fod Jerry Hunter o Ysgol y Gymraeg yn un o'n hymddiriedolwyr – nid yn unig am ei fod o'n arbenigwr ar waith Kater Roberts ond am ei fod o hefyd yn cynnig gweledigaeth gyffrous sut i gyfleu gwaith yr awdures i ddarllenwyr heddiw."



Canolfan Cae'r Gors – hen gartref Kate Roberts



Yr Athro Bedwyr Lewis Jones

## Gwahodd cyfraniadau i gofio Bedwyr

**HYD at ei farw annhymig ym 1992 roedd Yr Athro Bedwyr Lewis Jones yn ffigwr amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru ac yn llais cyfarwydd ar donfeddi Radio Cymru.**

**Ac yntau'n Athro'r Gymraeg ym Mangor, un o'i ddoniau mawr oedd y gallu i drafod pynciau astrus fel enwau lleoedd a tharddiad geiriau mewn modd difyr a dealladwy. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol a thrwy gyfrwng rhaglenni radio fel Yn ei Elfen, fe lwyddai, yn ddieithriad, i gyfareddu cynulleidfa eang.**

**Yn dilyn ei farw ym 1992 sefydlwyd cronfa i goffáu Bedwyr a thros y blynyddoedd y mae degau o fyfyrwyr ymchwil Bangor wedi derbyn cymorth ariannol o'r gronfa honno. Bellach mae cynlluniau ar droed i'w goffáu mewn modd mwy gweladwy. Comisiynwyd y cerflunydd John Meirion Morris i lunio penddelw ohono a gwahoddir cyfraniadau ariannol er mwyn dwyn y gwaith i ben.**

**A ydych chi'n cofio Bedwyr a'i lais unigryw? A hoffech gyfrannu at y cynllun diweddaraf hwn i'w goffáu?**

● Dylech anfon unrhyw gyfraniad at Yr Athro Peredur Lynch, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG (gyda sieciau'n daladwy i 'Prifysgol Bangor').

## Gweithio – a mwynhau

MAE'R bwrlwm cymdeithasol yn rhan o apêl Prifysgol Bangor i fyfyrwyr. O gystadlu mewn eisteddfodau i olygu Y Llef, cylchgrawn Cymraeg y myfyrwyr, y mae'r rhai sy'n astudio Cymraeg yn chwarae rhan amlwg yn y bwrlwm hwn. Yr uchafbwynt cymdeithasol wythnosol yw Clwb Cymru – noson o gerddoriaeth Gymraeg yn Undeb y Myfyrwyr.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon bydd digwyddiad cwbl newydd, sef Wythnos y Ddraig ym mis Mawrth wythnos o weithgareddau i ddathlu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth myfyrwyr di-Gymraeg yn eu cylch.

Ar hyn o bryd, o dan nawdd Cymdeithas y Dysgwyr, mae cannoedd o fyfyrwyr yn dysgu Cymraeg am y tro cyntaf yn y Brifysgol ac mae UMCB – sy'n cynnal pob math o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill – yn cynnal cynllun 'cyfeillion' sy'n golygu bod dysgwyr yn mynd yng nghwmni siaradwyr Cymraeg rhugl i nosweithiau Cymraeg.

# Pwy 'di pwy ym Mangor

Y criw presennol o ddarlithwyr yw'r rhai diweddaraf mewn rhestr faith o enwogion ac ysgolheigion sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r Gymraeg ym Mangor. Heb gyfraniad rhai megis Syr John Morris-Jones, Syr Ifor Williams a Thomas Parry ni fyddai'r Gymraeg erioed wedi datblygu yn bwnc academaidd modern. Mewn cyfnod mwy diweddar, â Bangor y cysylltid yr ysgolheigion Dafydd Glyn Jones, Branwen Jarvis a Bedwyr Lewis Jones yn ogystal â'r bardd Gwyn Thomas. Ac mae'r to presennol o ddarlithwyr yn parhau i gyfrannu yn yr un modd i fywyd diwylliannol a llenyddol Cymru.

**YR ATHRO PEREDUR LYNCH (Pennaeth yr Ysgol):**



Mae'n arbenigo ar lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, a Beirdd y Tywysogion yn benodol. Cyhoeddodd yn helaeth ar bynciau fel datblygiad y gynghanedd, Dafydd ap Gwilym, a'r cyswllt rhwng gwleidyddiaeth a llenyddiaeth Gymraeg. Ef hefyd oedd un o olygyddion 'Cronfa Baledi', sef mynegai electronig ar-lein i faledi Cymraeg y ddeunawfed ganrif.

Bu'n gymrawd Ymchwil yn Aberystwyth ac yn ddarlithydd yn Abertawe cyn dychwelyd i'w hen adran ym 1995. Roedd yn un o olygyddion The Welsh Academy Encyclopaedia of Wales a'r gyfrol gyfatebol Gymraeg Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig.

**YR ATHRO GERWYN WILIAMS:**



Ymhlith ei feysydd ymchwil y mae'r ymateb i ryfel yn llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif, ffuglen Gymraeg fodern a barddoniaeth Gymraeg gyfoes, ac mae wedi cyhoeddi llyfrau swmpus yn y meysydd hyn. Y mae hefyd yn fardd cynhyrchiol a gyhoeddodd bum cyfrol o gerddi hyd yma. Daeth i'r amlwg yn ifanc fel bardd ac ef oedd enillydd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau 1994.

Bu'n olygydd Taliesin, cylchgrawn yr Academi Gymreig, ac ef bellach yw golygydd Ysgrifau Beirniadol a'r gyfres bwysig Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig sy'n cael ei chyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru.

**DR JASON WALFORD DAVIES:**



Mae ei ddiddordebau ymchwil yn eang ac yn ymestyn o'r Oesoedd Canol hyd at y cyfnod diweddar. Cyhoeddodd astudiaethau swmpus ar waith y bardd Waldo Williams ac y mae hefyd wedi cyhoeddi cyfrol nodedig – Gororau'r Iaith – sy'n archwilio dylanwad llenyddiaeth Gymraeg ar waith R. S. Thomas.

Ef hefyd yw un o gyfarwyddwyr Canolfan Ymchwil R. S. Thomas ym Mangor. Daeth doniau creadigol Dr Davies i'r amlwg ym 2004 pan enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd am gerdd rymus yn coffáu streic y glowyr ym 1984.

**DR JERRY HUNTER:**



Daw'n wreiddiol o Ohio ac mae'n ysgolhaig Celtaidd sydd wedi cyflwyno rhaglenni arloesol am hanes Cymry America ar S4C.

Mae ei ddiddordebau ymchwil yn rhychwantu sawl maes, o ryddiaith y Mabinogion hyd at ffuglen Kate Roberts.

Un o'i gyfrolau pwysicaf yw Llwch Cenhedloedd sy'n adrodd hanes y Cymry Cymraeg a fu'n ymladd yn Rhyfel Cartref America, ac mae'i waith yn y maes hwn wedi arwain at greu cwrs hynod boblogaidd ar Ddiwylliant Cymraeg America sy'n rhan o'r cynllun BA Cymraeg ym Mangor.

**DR ANGHARAD PRICE:**



Y mae Dr Price yn feirniad llenyddol o fri ac yn un o lenorion amlycaf Cymru. Rhyddiaith Gymraeg y cyfnod diweddar yw ei phrif faes ymchwil ac mae'i chyfrol Rhwng Gwyn a Du yn cynnwys astudiaeth wreiddiol o ffuglen Gymraeg y 1990au.

Enillodd Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ym 2002 gyda'r campwaith O! Tyn y Gorchudd, ac mae'r gwaith hwnnw bellach yn cael ei gyfieithu i'r Saesneg. Bu'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Rhydychen ac yn darlithio am gyfnodau hefyd ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd.

# Astudio'r Gymraeg ... a theithio'r byd

ERS blynyddoedd lawer mae cysylltiad agos rhwng Ysgol y Gymraeg ym Mangor a'r Adran Geltaidd ym Mhrifysgol Harvard gerllaw Boston yn yr Unol Daleithiau. Bydd myfyrwyr ymchwil Harvard yn treulio cyfnodau ym Mangor er mwyn dod i wybod mwy am Gymru a'r Gymraeg. A bydd myfyrwyr ymchwil Bangor hefyd yn cael cyfle i dreulio cyfnodau estynedig yn Harvard – prifysgol orau'r byd ym marn llawer.

Yn ôl Rhiannon Heledd Williams, roedd y pedwar mis a dreuliodd yn Harvard yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf "yn brofiad anhygoel."


Daeth Rhiannon i astudio ar gyfer ei PhD ym Mangor ar ôl gwneud cwrs BA Cymraeg yn Aberystwyth ac MA mewn newyddiaduraeth yng Nghaerdydd. Ac roedd ganddi hi reswm da dros ddod i Fangor. Roedd hi am astudio hanes y wasg Gymreig yn America o dan gyfarwyddyd Dr Jerry Hunter.

Meddai Rhiannon. "Ychydig a feddyliais i ar ddechrau fy noethuriaeth y byddwn i'n treulio cyfnod yn yr Unol Daleithiau yn astudio ym Mhrifysgol nodedig Harvard."

"Yn Harvard roedd modd edrych ar gyd-destun Americanaidd fy ngwaith ymchwil yn fanylach yn y casgliad enfawr o lyfrau sydd yno. Roedd yna gyfle i mi hefyd ddilyn rhai modiwlau a seminarau a oedd yn berthnasol i'r maes."

Cafodd Rhiannon hefyd gyfle i roi cymorth i rai o'r myfyrwyr yn Harvard sy'n dysgu Cymraeg ac i gymdeithasu yn eu plith yn y Gymdeithas Gymreig sy'n cyfarfod bob wythnos.

Mae un arall o fyfyrwyr PhD Ysgol y Gymraeg, y canwr Gwilym Morus, yn treulio cyfnod o bedwar mis yn yr Unol Daleithiau ar hyn o bryd.





**Mae Rhiannon Heledd Williams (prif lun), a Gwilym Morus (chwith) wedi manteisio ar y cyfle i astudio yn yr Unol Daleithiau**

Llwyddodd Gwilym i ennill un o Ysgoloriaethau Llyfrgell y Gyngres yn Washington, cynllun sy'n cael ei redeg gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, y corff sy'n rhoi arian i fyfyrwyr ymchwil.

Maes ymchwil Gwilym yw barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol.

Ond bydd ei gyfnod yn Llyfrgell y Gyngres yn Washington yn caniatáu iddo ymgynghori â deunyddiau cymharol yn ymwneud â barddoniaeth lafar a thraddodiadau perfformio yn Affrica a Gogledd America. Ac ni fydd prinder deunydd ar gyfer Gwilym. Mae Llyfrgell y Gyngres yn cynnwys dros 138 miliwn o eitemau ar 650 milltir o silffoedd, ac mae 10,000 o eitemau newydd yn cael eu hychwanegu atynt bob dydd.

"Mi fydda i'n edrych ar ddefodau llafar yr Indiaid Cochion a beirdd a cherddorion Affrica," meddai Gwilym. "Mae'r Llyfrgell yn Washington yn berffaith ar gyfer astudio'r meysydd hyn."

# Adeiladu'r Gymru newydd

MAE gradd yn y Gymraeg yn gallu arwain at swyddi ym maes gwarchod a hyrwyddo'r iaith a chyflogaeth gan Fentrau Iaith sydd wedi eu sefydlu mewn sawl ardal yng Nghymru bellach.

Dyna un rheswm pam yr aeth Ysgol y Gymraeg ati i sefydlu cwrs arbennig ar Gynllunio Ieithyddol fel rhan o'r cynllun BA Cymraeg. Nid edrych ar y sefyllfa yng Nghymru yn unig y bydd y myfyrwyr. Cânt gyfle hefyd i weld sut yr aed ati i hyrwyddo a chryfhau ieithoedd lleiafrifol mewn mannau fel Gwlad y Basg ac ymhlith y Maoriaid yn Seland Newydd. Yn ychwanegol at hynny, cânt eu dysgu gan un sy'n arbenigwraig ryngwladol yn y maes, Dr Kathryn Jones o Gwmni Iaith.



**Menna Machreth**

Meddai Kathryn: "Yn ychwanegol at ddarlithoedd mae 'na bwyslais hefyd ar gynnal sesiynau ymarferol efo pobl sy'n gweithio i asiantaethau fel y mentrau iaith, y Bwrdd Iaith ac efo gwleidyddion sy'n arbenigo ar ddeddfau iaith a swyddogion sy'n gyfrifol am gynlluniau iaith gwahanol gyrff."

Yn ddiweddar bu Hywel Williams AS, Alun Ffred Jones AC a Gwyn Jones o'r Bwrdd Iaith yn trafod y maes gyda'r myfyrwyr.

Bu Menna Machreth, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith, ac un o fyfyrwyr ymchwil Bangor, hefyd yn sgwrsio am swyddogaeth grwpiau pwyso.

Mae gwaith a fydd yn arwain at hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei gyflawni gan rai o fyfyrwyr ymchwil Ysgol y Gymraeg hefyd, a hynny gyda chefnogaeth ariannol Bwrdd yr Iaith. Ar hyn o bryd mae un prosiect yn canolbwyntio ar drosglwyddiad iaith ymhlith disgyblion ysgol ac un arall yn ceisio mesur dealltwriaeth pobl o Gymraeg ysgrifenedig.

# Dwy genhedlaeth o rocars Bangor

MAE cenedlaethau o fyfyrwyr Cymraeg Bangor wedi dod i'r amlwg fel beirdd a llenorion ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ond y maent hefyd – o ddyddiau Caryl Parry Jones ymlaen – wedi cyfrannu'n sylweddol i fyd canu poblogaidd a'r sîn roc Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae tri o berfformwyr mwyaf dawnus Cymru – Gruff ab Arwel, Osian Howells a Gwilym Morus – yn astudio Cymraeg ym Mangor.

Mae Osian Howells yn gitarydd gyda grŵp yr Ods, band ifanc egnïol sy'n perfformio ar draws Cymru ar hyn o bryd. Ac un sy'n gwybod yn iawn am y profiad o berfformio ar lwyfan yw Gwyn Howells, tad Osian. Ef oedd drymiwr Angylion Stanli, un o grwpiau mwyaf poblogaidd dechrau'r 1980au. Ac fel Osian, roedd Gwyn hefyd yn fyfyriwr Cymraeg ym Mangor, ac yn cael blas eithriadol ar y cwrs.

"Grwp hwyl oedd Angylion Stanli oedd yn cenhadu dros y Gymraeg pan oedd brwydr yr iaith yn boeth," meddai Gwyn Howells.

"Roeddan ni'n chwarae yn gyson am tua thair blynedd tra oeddwn i yn y Brifysgol. Roedd o'n gyfnod cyffrous. A do, mi wnes i fwynhau'r cwrs Cymraeg hefyd a mynd ymlaen i fyd dysgu."

Erbyn hyn mae Gwyn yn bennaeth Ysgol y Gelli yng Nghaernarfon, un o'r ysgolion cynradd mwyaf yng Ngwynedd, ac mae Osian ar ei flwyddyn olaf ym Mangor. Mae Osian hefyd yn mwynhau'r profiad o fod mewn band ac astudio Cymraeg.

"Dwi'n meddwl y bydd hyn yn agor drysau i wahanol gyfeiriadau," meddai.

"Mae Ysgol y Gymraeg yn lle grêt. Mae pawb yn 'nabod ei gilydd ac ym Mangor y mae'r darlithwyr gorau trwy Gymru!"

Mae Gruff ab Arwel eisoes yn enw cyfarwydd yn sgil y grŵp Eitha Tal Ffranco. Ond erbyn hyn y mae'n prysur wneud enw iddo'i hun mewn grŵp newydd sy'n cynnwys rhai o berfformwyr gorau Cymru. Enw'r grŵp newydd yw Niwl ac ymhlith yr aelodau eraill y mae Alun Tan Lan.

"Oedd o reit cwl pan ges i gyfle i ymuno efo Alun a'r lleill," meddai, ac mae'n falch iawn hefyd fod Prifysgol Bangor o fewn pellter rhesymol i'w gartref yn Rhostryfan.

"Mae bod ym Mangor yn dipyn o hwyl. Mae pawb yn 'nabod ei gilydd yma ac mae yma fywyd cymdeithasol Cymraeg da."

"O ran y cwrs, mae'r cyfuniad o'r cyfoes a'r traddodiadol yn dda a dwi'n mwynhau'r ochr greadigol hefyd."





**Osian Howells a'i dad Gwyn, ac ar y dde, Gruff ab Arwel**

# Llenydda – a meithrin doniau'r myfyrwyr

Ofewn y misoedd nesaf, bydd Dr Angharad Price a Sian Owen, un o'i myfyrwyr ymchwil, ill dwy yn cyhoeddi nofel. Comedi gymdeithasol o'r enw Caersaint yw'r nofel y bydd Angharad yn ei chyhoeddi, ac y mae wedi'i lleoli yn nhref Caernarfon.

Daeth Angharad Price i amlygrwydd cenedlaethol fel llenor yn 2002 pan enillodd y Fedal Ryddiaith am yr hunangofiant dychmygol O! Tyn y Gorchudd, ac fe sicrhaodd yr un gyfrol iddi wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003. Mae O! Tyn y Gorchudd yn cael ei ystyried bellach yn un o lyfrau ffuglen gorau'r cyfnod diweddar.

"Prif gymeriad fy nofel newydd ydi Gwyn, hogyn ifanc sy'n ymholi pwy ydi o, ac wrth wneud hynny mae o'n dod i nabod Caersaint a'i phobl yn well."

"Hen enw ar Gaernarfon ydi Caersaint, a nofel sydd wedi'i hysbrydoli gan Gaernarfon a'i phobl ydi hon," meddai Angharad, a gafodd ei magu ym mhentref Bethel ac sydd bellach yn byw yn nhref y Cofis.

Yn y Brifysgol ym Mangor mae Angharad yn arbenigo mewn llenyddiaeth Gymraeg ddiweddar ac yn gallu tynnu ar ei phrofiad ymarferol ei hun wrth ddysgu cyrsiau ar y nofel Gymraeg ddiweddar ac ysgrifennu creadigol. "Dwi yma i ymateb i'r sgwennu ac i annog y myfyrwyr," meddai Angharad.

Un sydd wedi elwa'n fawr ar arbenigedd Angharad Price ym Mangor yw Sian Owen o Farian-glas, Ynys Môn.

Graddiodd Sian mewn Ffiseg yn Aberystwyth yn ystod yr 1980au. Ond teimlodd dynfa erioed at fyd ysgrifennu creadigol. Dair blynedd yn ôl, er mwyn mwyn cael yr amser a'r cyfarwyddyd i droi ei syniadau yn nofel, penderfynodd wneud doethuriaeth mewn ysgrifennu creadigol ym Mangor.

Mae'r penderfyniad hwnnw eisoes wedi talu ar ei ganfed. Daeth ei nofel Mân Esgyrn yn ail yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala eleni.



Fe fydd nofel newydd Angharad Price – Caersaint – allan yn fuan

"Mae'r nofel yn dechrau wrth i ferch 39 oed symud yn ôl i'w hardal enedigol. Ac mae hi'n stori sy'n gweithio ar sawl lefel ac yn dangos nad oes dim byd yn syml nac yn ddu a gwyn," meddai Sian.

Ac mae Sian yn gwbl bendant na fyddai'r nofel wedi ei llunio na'i chwblhau oni bai am gefnogaeth Angharad Price.

"Y peth pwysicaf a wnaeth Angharad oedd gwrando," meddai. "Yn aml byddwn i'n gwyntyllu fy syniadau efo hi. Roedd hi'n rhoi hyder i mi, yn fy annog, ac yn fy nghadw ar y trywydd cywir!"




Sian Owen, a'i chyfrol newydd sbon – Mân Esgyrn, a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer

Llun: Mel Parry

# Y Gymraeg – iaith gwaith a gyrfa

MAE gradd yn y Gymraeg yn arwain at yrfaoedd eithriadol o amrywiol. Y cyfryngau a newyddiaduraeth, cyfieithu, dysgu, marchnata, gweinyddu cyhoeddus a gwleidydda: dyna rai yn unig o'r meysydd sy'n cynnig swyddi da i'r rhai sy'n graddio yn y Gymraeg ym Mangor.

Tybed faint o wylwyr Sgorio ar S4C sy'n ymwybodol fod Morgan Jones, un o gyflwynwyr y rhaglen, yn arbenigwr ar waith y Cywyddwyr? Faint ohonynt sy'n gwybod y gallai Malcolm Allen yn hawdd ei gyfarch fel y Dr Morgan Jones? Wel, ar ôl cwblhau traethawd doethuriaeth ar waith y bardd Siôn Phylip (1543-1620) o Ardudwy, y mae gan Morgan bob hawl i'r teitl.

"Mae pobl yn fy holi weithiau beth sy' a wnelo doethuriaeth yn y Gymraeg â phêl-droed? Fy ateb i ydi 'mod i'n trin a thrafod geiriau Cymraeg yn fy ngwaith bob dydd wrth gyflwyno a pharatoi sgriptiau. Dwi'n defnyddio fy arbenigedd yn y Gymraeg mewn ffordd gwbl ymarferol."



Dr Morgan Jones i chi...

"Mae'r cyfnod o astudio hen gywyddau wedi rhoi ymwybyddiaeth ddofn o iaith i mi. Ac mae hyn yn bwysig iawn pan ydach chi'n gorfod cyflwyno'n fyw a chyfathrebu o'ch pen a'ch pastwn eich hun!"

Ar ôl gwneud gradd BA yn y Gymraeg, fe dreuliodd Morgan dair blynedd arall ym Mangor yn paratoi ei waith ymchwil. Ac roedd y llafur hwnnw'n golygu darllen a dehongli degau o hen lawysgrifau wrth iddo gasglu gwaith Siôn Phylip ynghyd. Bellach mae Morgan yn un o'r cyflwynwyr mwyaf poblogaidd ar S4C.

"Doedd gen' i ddim syniad i ble yr oedd gradd yn y Gymraeg am arwain, ond mi ddewisais i'r pwnc am fy mod i'n mwynhau darllen a sgwennu ac yn mwynhau chwarae efo iaith – rhywbeth yr ydw i'n ei wneud bob dydd wrth fy ngwaith."

**AR ôl iddi raddio ym Mangor yn 2006 gweithio yn y byd cyfieithu fu hanes Manon Elis. Fe ddechreuodd ar ei gyrfa gyda chwmni Prysg yng Nghaerdydd. Erbyn hyn mae hi'n gweithio i gwmni Cymen yng Nghaernarfon.**

**"Dwi'n canolbwyntio ar gyfieithu deunydd ysgrifenedig ar hyn o bryd," meddai Manon.**

**"Dwi'n arbennig o hoff o gyfieithu'r Cofnod – cofnodion swyddogol y trafodaethau yn y Cynulliad – ac wedi dod i wybod llawer am faterion cyfoes."**

**"Mae o'n waith amrywiol iawn ac mae gan gwmni Cymen swyddfeydd braf iawn y tu mewn i furiau tref Caernarfon!"**



Manon Elis

**Anwen Gruffydd Wyn sy'n gyfrifol am greu deunydd aml-gyfrwng ar gyfer gwefan Prifysgol Bangor. Fe fu Anwen hefyd yn astudio Cymraeg ym Mangor.**

**Mae gallu gweithio'n hyderus, ac yn gyflym, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl hanfodol yn ei swydd. Drwy gydol y dydd bydd Anwen yn derbyn deunydd newydd i'w osod ar y wefan ac yn gorfod diweddaru'r hyn sydd yno'n barod yn gyson. Yn yr oes electronig hon, y mae ei swydd yn un allweddol. Y wefan yw'r cysylltiad pwysicaf rhwng Prifysgol Bangor a'r byd mawr y tu allan, a bydd cannoedd o ddarpar-fyfyrwyr yn ymweld â'r safle'n ddyddiol.**



Anwen Gruffydd Wyn

**Cyn dychwelyd i weithio yn y Brifysgol ym Mangor roedd Anwen yn newyddiadurwraig gyda gorsaf radio leol. Yno cafodd y profiad o ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa arbennig yn ogystal â darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.**

**"Dwi'n hynod o falch fy mod i wedi penderfynu astudio Cymraeg ym Mangor. 'Fyddai'r un o'r swyddi hyn wedi bod yn bosibl heb yr addysg, yr arweiniad, a'r cymorth a gefais fel myfyrwraig ym Mangor."**

Cyhoeddwyd yr atodiad hwn gyda chymorth ariannol o Gronfa Goffa D. Tecwyn a Gwyneth Lloyd, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor